Yn haf 2022, cyflwynodd Cyngor Castell-nedd Port Talbot gais uchelgeisiol i'r Gronfa Ffyniant Bro (LUF) ar gyfer gwelliannau ym Mhontneddfechan er mwyn rhoi sylw i faterion traffig a chreu argraff ar y sawl sy'n cyrraedd y safle. Gan i'r cais hwn fod yn llwyddiannus yn y pen draw, mae'r cyflwyniad hwn yn amlinellu prif agweddau'r cynigion, sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd gyda golwg ar baratoi'r ceisiadau statudol angenrheidiol.

**Sylwch mai cysyniadau yw'r cynigion hyn ar hyn o bryd, ac y gallant newid.**

*Sganiwch i roi adborth*

*Gallwch roi adborth hefyd trwy fynd i: www.npt.gov.uk/pontneddfechan*

# Gweledigaeth

Bydd cynllun seilwaith ymwelwyr Gwlad y Sgydau Pontneddfechan yn rhoi sylw i'r pwysau sylweddol sydd ar y gymuned leol ar hyn o bryd trwy wella mynediad at wasanaethau a chefnogi'r economi ymwelwyr trwy ddarparu seilwaith strategol ar gyfer ymwelwyr.

Bydd y prosiect yn darparu'r capasiti angenrheidiol i ddarparu ar gyfer yr ymwelwyr presennol ar yr adegau prysuraf a rheoli niferoedd ymwelwyr ar hyd y flwyddyn. Canlyniad hyn fydd ymestyn y tymor ymwelwyr a lleddfu'r pwysau ar yr adegau prysuraf o'r flwyddyn. Yr uchelgais yw lliniaru'r effeithiau negyddol sy'n gysylltiedig ag ymwelwyr a chreu profiad cadarnhaol i ymwelwyr â'r atyniad hwn o safon byd-eang.

Yn ogystal â'r cynnig ar gyfer llety cydweddus i ymwelwyr, bydd mentrau masnachol yn manteisio ar wariant ychwanegol gan ymwelwyr yn yr ardal leol, a bydd hyn yn creu cyflogaeth.


Yn rhan o'r cynigion caiff canran o'r incwm a gynhyrchir trwy barcio ceir ei neilltuo a'i wario ar brosiectau yn y gymuned leol a chynlluniau i reoli effeithiau ymwelwyr ar yr ardal leol yn well yn y dyfodol.





*Nid yw'r cyfleusterau presennol i ymwelwyr yn creu porth digonol i Wlad y Sgydau.*

# Dadansoddiad





*Cryfderau a Gwendidau'r safle*

# Ystyriaethau







*Parcio yw'r broblem amlycaf yn y pentref ar yr adegau prysuraf i ymwelwyr. Mae cilfan barcio ar hyd Heol Pontneddfechan ond nid oes palmant penodedig yno a rhaid i gerddwyr groesi'r ffordd rhwng y ceir. Mae 4 lle parcio di-dâl wrth ymyl y toiledau cyhoeddus cyfyngedig.*

Mae'r safle arfaethedig mewn man amlwg, yng nghanol pentref hynafol Pontneddfechan yn ymyl cefn gwlad agored.

**1. Golygfeydd**

- Mae'r astudiaeth wedi mapio golygfeydd allweddol dros y safle ac allan i'r tirlun o'i amgylch.
- Mae'n amlwg y gall unrhyw gynigion ar gyfer parcio ceir gael effaith sylweddol ar y golygfeydd o'r tirlun yn ei gyd-destun a'r ffordd tuag at y pentref. Bydd y cynigion felly yn ceisio lleihau a lliniaru'r effaith hon.


**2. Traffig a Pharcio Ceir**

- Hyn a hyn o le sydd i barcio ceir ar hyn o bryd gydag ymwelwyr yn aml yn parcio mewn modd amhriodol. Ar ben hynny, mae'r cyfleusterau presennol ar Heol Pontneddfechan yn gofyn bod ymwelwyr yn camu allan i'r briffordd a chroesi'r ffordd.
- Nid yw'r palmentydd yn cyd-fynd â'r canllawiau hygyrchedd nac yn addas ar gyfer cadeiriau olwyn neu gadeiriau gwthio o ystyried nifer y cerddwyr a chyflymder y traffig yn aml ar hyd y lôn gerbydau.

**3. Cyfleusterau Toiledau Cyhoeddus a Gwybodaeth i Ymwelwyr**

- Er bod y sefyllfa bresennol yn cynnig cyfle economaidd eithriadol yn lleol, mae'n cael effaith negyddol ar ansawdd bywyd ac mae'r budd economaidd i'r gymuned bresennol yn gyfyngedig.
- Mae nifer o sefydliadau masnachol lleol llwyddiannus sy'n boblogaidd ymhlith trigolion lleol ac ymwelwyr. Fodd bynnag, mae pwysau aruthrol ar yr economi a'r seilwaith lleol ar yr adegau prysuraf. Mae hyn yn arbennig o amlwg yn achos toiledau a chyfleusterau gwaredu gwastraff. Mae nifer o fylchau yn yr arlwy lleol presennol i ategu'r busnesau presennol a lleihau'r pwysau sydd arnynt.

# Ymateb



*Mae Pontneddfechan yn borth allweddol i Wlad y Sgydau.*

Mae astudiaeth gychwynnol wedi llunio dyluniad cysyniadol ar gyfer Pontneddfechan Isaf sy'n cynnwys:

1. Cynigion i dirweddu'r parth cyhoeddus, gan gynnwys gwelliannau priffyrdd ac arafu traffig, maes parcio penodedig (gan gynnwys cyfleusterau gwefru cerbydau trydan a darpariaeth hygyrch ar gyfer coetsys a bysiau mini), gwell llwybrau a mannau cyhoeddus; gwybodaeth i ymwelwyr a chynigion draenio cynaliadwy.

   **Bydd y maes parcio'n cynnig y capasiti angenrheidiol i ddarparu ar gyfer y nifer presennol o ymwelwyr ar yr adegau prysuraf gyda chymorth mesurau rheoli traffig i atal y parcio amhriodol presennol. Bydd gwell cyfleusterau hefyd yn annog ymweliadau ar adegau llai prysur, gan ymestyn y tymor a sicrhau galw mwy cyson.**

2. Cynigion pensaernïol ar gyfer Hwb Ymwelwyr tra chynaliadwy a chyfleusterau cyhoeddus i ymwelwyr, gan gynnwys llety ymwelwyr ar raddfa fach a chyfleoedd masnachol cymunedol.

   **Bydd y Ganolfan Ymwelwyr yn borth ymwelwyr gwell sy'n croesawu ymwelwyr i'r adnodd naturiol pwysig hwn. Yn ogystal, bydd yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth newydd a gwasanaethau ar gyfer y gymuned leol.**

Hiraeth. Hiraeth Architecture Ltd.
Planning Solutions Consulting – Experts in visitor experiences
UK Government Llywodraeth y DU – Office of the Secretary of State for Wales / Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru
FFYNIANT BRO

**Pontneddfechan – Seilwaith Ymwelwyr – Trosolwg**

## Trosolwg



*Trefnir yr elfennau adeiledig ar ffurf casgliad o adeileddau tebyg i ysguboriau â thoeon ar oleddf, wedi'u cysylltu gan golonâd allanol ysgafn a fydd yn darparu cysgod a chyfleoedd dehongli.*

## Y Parth Cyhoeddus



*Mae bylchau rhwng yr elfennau adeiledig yn darparu pyrth i gerddwyr symud o'r ardaloedd parcio i sgwâr y pentref. Mae'r agoriadau hefyd yn cyd-redeg â'r golygfeydd allweddol o'r maes parcio tuag at sgwâr y pentref neu o'r sgwâr tuag at gefn gwlad agored.*

Mae'r Dadansoddiad o Gyd-destun y safle datblygu wedi llywio ymateb dylunio sy'n cynnwys:

**Mesurau arafu traffig** sy'n golygu bod Gwlad y Sgydau yn fwy hygyrch i ymwelwyr ac yn helpu i leihau tagfeydd ac allyriadau $CO_2$.

**Darpariaeth newydd ar gyfer parcio ceir** ar dir yn ymyl yr afon i'r de o ganol y pentref y tu ôl i fistro Sgwd Gwladys a'r adeiladau amaethyddol sydd eisoes yn bodoli:

- I leihau effaith weledol y cynllun yn y tirlun, bydd topograffi'r maes parcio yn disgyn tua'r de;
- Bydd cyflwyno coed a phlannu gwrychoedd llydan yn cyfrannu at gadwraeth natur, cynyddu coridorau bywyd gwyllt a lleihau amlygrwydd yr ardaloedd wyneb caled. Trwy dynnu llinell y coed ymlaen, caiff y cynllun ei sgrinio ar yr ochr dde-orllewinol er mwyn lleihau'r effaith weledol ar y golygfeydd i'r pellter ar draws basn y cwm.
- Ymgorfforir draenio cynaliadwy i reoli dŵr arwyneb a chyfrannu hefyd at fframwaith tirlunio cryf a fydd yn gwella'r profiad i ymwelwyr.
- Ni fydd goleuadau yn y maes parcio newydd, ac eithrio yn yr ardal barcio hygyrch. Ar hyd y llwybrau sy'n cysylltu'r cwrt a'r hwb ymwelwyr bydd goleuadau bolardiau lefel isel, a fydd yn cynnwys pwyntiau gwefru cerbydau trydan.
- Mae'r lleoliad yn parchu'r map llifogydd gan fod yr holl waith wedi'i leoli y tu allan i barthau llifogydd 2 a 3. Bydd yn diogelu'r afon a'r cynefin glan afon cysylltiedig gan wella'r lloches a'r cyfleoedd bwydo ar gyfer adar, mamaliaid ac amffibiaid yn yr ardal.

**Gwelliannau i'r parth cyhoeddus**, sy'n cynnwys:

- Bydd creu dwy sgwâr gyhoeddus gysylltiedig y naill ochr a'r llall i Heol Pontneddfechan yng nghanol y pentref yn darparu lle tu allan i'r hwb ymwelwyr, ar gyfer amrywiaeth eang o ddigwyddiadau gan gynnwys marchnadoedd ffermwyr, ac yn darparu cysylltiadau â Thrywydd Elidir.
- Mae creu golygfan yn ymyl yr afon wrth y fynedfa i Drywydd y Sgydau yn manteisio ar olygfeydd pwysig o hen bont Pontneddfechan;
- Mae cwrt wedi'i dirlunio'n feddal y tu ôl i'r llety cydweddus a gynigir yn ffurfio rhan o lwybr diogel i gerddwyr o'r maes parcio wrth gefn a'r gilfan barcio i ganol y pentref.
- Bydd llwybr i gerddwyr o'r maes parcio ar hyd ochr yr afon yn creu mannau tawel gyda seddau ac ardaloedd picnic.

## Hwb i Ymwelwyr

**Hwb a Llety i Ymwelwyr, ar gyfer twristiaid a'r gymuned**

- Mae'r hwb/llety i ymwelwyr a ddarperir yn ffurfio ymyl de-orllewinol y sgwâr gyhoeddus newydd ynghanol y pentref, gan ddarparu adeilad porth ar gyfer ymwelwyr a sgrinio'r maes parcio o olwg y pentref ar yr un pryd
- Rhennir adeilad llinol yr Hwb i Ymwelwyr yn ddwy elfen adeiledig:
  - Siop gymunedol/fferm, storfeydd cysylltiedig, swyddfa'r warden a siop lluniaeth ysgafn (gyda ffocws ar gynnyrch lleol, nwyddau sylfaenol a rhai eitemau manwerthu cysylltiedig â thwristiaeth)
  - Darpariaeth ystafelloedd ymolchi cyhoeddus lawer gwell, ochr yn ochr ag ardal allanol ar gyfer cŵn a golchi esgidiau, a chyfleusterau priodol ar gyfer gwaredu gwastraff.
- Llety dros nos i ategu'r hyn a gynigir eisoes gan Sgwd Gwladys a busnesau lleol er mwyn cynhyrchu llif incwm uniongyrchol i sicrhau cynaliadwyedd y cynigion yn y tymor hwy, ac annog ymwelwyr i aros yn yr ardal.
- Lle cymunedol mawr a ddyluniwyd fel gofod hyblyg sydd ar gael at ddefnydd y gymuned neu i'w logi'n breifat ar gyfer digwyddiadau achlysurol.

Cysylltir yr hwb a'r llety gan golonâd dan do sy'n darparu lloches a mannau ymgynnull, gan integreiddio gwybodaeth leol a gwybodaeth i ymwelwyr sy'n adrodd stori Pontneddfechan a Gwlad y Sgydau.



*Yr olygfa ar hyd y colonâd sy'n ffurfio ymyl y sgwâr gyhoeddus*